**PWYLLGOR ARCHWILIO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

**2 Mawrth 2022**

Yn bresennol: Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Dr R Heath Davies, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James a Mr G Jones.

[Ymunodd y Cynghorydd R Owens â'r cyfarfod yn ystod ystyried adroddiad 01/22 Llythyr Archwilio a Chrynodeb Blynyddol (gweler Cofnod 5)]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am -11.55am)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd P Baker BEM, Cynghorydd P Kidney a'r Cynghorydd M Williams.

**2. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed o Dachwedd 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed o Dachwedd 2021.

**4. Materion yn Codi**
Adroddiad ar Berfformiad y Gyllideb am y 6 mis hyd at Medi 2021 (Cofnod 5)
Gofynnodd un Aelod a oedd unrhyw drafodaethau pellach wedi'u cynnal gyda Chyngor Sir Penfro (CSP) ynghylch dulliau eraill o dalu am barcio ceir lle roedd y signal ffôn symudol yn wan ac nad oedd felly yn bosibl defnyddio'r ap 'Talu dros y Ffôn'. Atebodd y Prif Weithredwr bod amrywiol gyfarfodydd ynglŷn â pharcio ceir wedi'u cynnal gyda swyddogion CSP, ond nad oedd yn siŵr a oedd dulliau talu am barcio wedi'i drafod. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr nad oedd y gost o ymestyn band eang i bob maes parcio yr Awdurdod yn gost effeithiol, fodd bynnag gellid talu am barcio ymlaen llaw drwy ddefnyddio'r ap Talu dros y Ffôn neu mewn arian parod ym mhob peiriant.

**Nodwyd.**

5. **Llythyr Archwilio Blynyddol 2020-21 a Chrynodeb Archwilio Blynyddol 2021**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Nick Selwyn o Archwilio Cymru. Ymunodd ei gydweithiwr Deryck Evans ag ef yn ystod y drafodaeth. Dywedodd Mr Selwyn bod Llythyr Archwilio Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhoi manylion am ei gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio, ac ardystiwyd bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur Llywodraeth Leol.

Ail ddogfen Archwilio Cymru oedd ei Grynodeb Archwilio Blynyddol 2021 oedd yn dangos y gwaith yr oedd wedi'i gwblhau ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd fis Ionawr 2021. Roedd hwn yn cynnwys archwilio cyfrifon 2020-21 a gwaith mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi cadarnhad bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran gwelliant parhaus, adolygu cydnerthedd a chynaliadwyedd gwasanaethau'r Awdurdod, a dwy astudiaeth llywodraeth leol ar ddarparu gwasanaethau dewisol ac adfywio canol trefi. O ran Archwilio'r cyfrifon, roedd Mr Evans wedi amlygu'r angen am i'r Awdurdod reoli ei wasanaethau wrth edrych i'r dyfodol yn wyneb y sefyllfa ariannol iach. Atebodd y Rheolwr Cyllid bod yr Awdurdod yn ymwybodol o lefel ei gronfeydd wrth gefn a'i fod yn rheoli'r sefyllfa. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai ad-drefnu'r Awdurdod oedd yn digwydd ar y pryd yn rhoi'r Awdurdod mewn gwell sefyllfa i fynd i'r afael â'r mater hwn wrth symud ymlaen, er iddo nodi bod llawer o'r arian wrth gefn yn arian cyfalaf a bod gwario'r cyllid hwn yn heriol yn yr hinsawdd sydd ohoni ar adeg pan oedd galw mawr am y nifer cyfyngedig o gontractwyr oedd ar gael nad oedd yn tendro am waith.

Roedd yr Aelodau'n falch bod yr adolygiad o wasanaethau wedi canfod bod yr Awdurdod yn ymaddasu ac yn gydnerth, a gofynnwyd am gael unrhyw enghreifftiau o arfer da o rannau eraill o'r wlad oedd yn berthnasol. Diolchodd y Cadeirydd i'r Archwilwyr am eu presenoldeb.

**Nodwyd.**

6. **Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a gofynnwyd am eu sylwadau ar y datganiad drafft 2021/22. Byddai'r datganiad hwn yn dod yn Atodiad i'r Cyfrifon Blynyddol fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol sydd i'w gweld yn Adran 5 o'r ddogfen wedi'i hargraffu mewn coch gan nad oedd eto wedi'i chyflwyno i'r Awdurdod.

O dan Adran V, yr Adolygiad o Effeithiolrwydd, gwnaeth yr Aelodau rai sylwadau mewn perthynas â’r gwaith ar y Strategaeth Iaith Gymraeg, yr Arolwg o Farn y Gweithwyr, a gweithio mewn partneriaeth; hefyd o ran Adran VI Materion Llywodraethu Arwyddocaol, nodwyd bod dau o’r blychau ‘Camau i’w Cymryd’ yn wag. Diolchodd y swyddogion i'r Aelodau am eu sylwadau a chytunwyd i ddiweddaru'r ddogfen. Nodwyd hefyd y byddai'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol hefyd yn cael cyfle i wneud sylwadau yn ei gyfarfod nesaf.

**Nodwyd.**

**7. Adroddiad ar Berfformiad y Gyllideb am y 9 mis hyd at Rhagfyr 2021**

Roedd adroddiad y Rheolwr Cyllid yn nodi’r gyllideb refeniw net fanwl ar gyfer y naw mis hyd at fis Rhagfyr 2021 oedd yn dangos bod y gwariant gwirioneddol ac ymrwymedig yn £3,154k, sef £947k o dan y gyllideb broffiliedig. Roedd y prif resymau am yr amrywiant yn y gwariant gwirioneddol yn erbyn cyllideb pob adran gwasanaeth wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Nodwyd bod cyfanswm incwm nwyddau a mynediad yn ystod y cyfnod yn uwch na'r gyllideb ac yn erbyn ffigurau 2020/21. Roedd Caffi Castell Caeriw hefyd wedi cynhyrchu incwm sylweddol o £96k yn ystod y cyfnod oedd gryn dipyn yn fwy na'r gyllideb a’r blynyddoedd blaenorol. Roedd incwm meysydd parcio am y flwyddyn hyd yn hyn o £817k hefyd i fyny £360k yn erbyn y gyllideb a £392k yn erbyn yr un cyfnod yn 2020/21.

Ar ddiwedd y trydydd chwarter (nid yr ail chwarter fel y nodir yn yr adroddiad) y sefyllfa refeniw a ragwelwyd ar gyfer diwedd blwyddyn 2021/22 oedd gwarged gweithredol o £805k yn erbyn dim gwarged yn y gyllideb wreiddiol, a nodwyd y rhesymau am hyn yn yr adroddiad. Byddai'r gwarged refeniw a ragwelir yn cael ei ddefnyddio i greu cronfeydd wrth gefn i helpu gyda phrosiectau’r Awdurdod ar Ddatgarboneiddio ac i ariannu'n rhannol y gwaith o ailddatblygu’r Ystafell Werdd a gymeradwywyd gan yr Awdurdod fis Medi 2021. Byddai'r gwarged hefyd yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r costau fyddai’n deillio o'r adolygiad presennol o’r blaenoriaethau a’r ailstrwythuro posibl o fewn yr Awdurdod.

Roedd y rhaglen gyfalaf am y flwyddyn wedi cynyddu o'r gyllideb wreiddiol o £1,433k i gyllideb ddiwygiedig o £1,552k. Roedd y cynnydd hwn i’w briodoli i’r ffaith bod ailddatblygu’r Ystafell Werdd wedi’i gynnwys, prosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru o dan y cynllun grant Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy, a’r prosiectau a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Hefyd nodwyd nad oedd ambell i brosiect wedi cychwyn gan nad oedd contractwyr wedi cyflwyno tendrau.

Gan droi at Gronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod, dywedwyd bod disgwyl y byddai £805k o warged yn y Gronfa Wrth Gefn gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Fodd bynnag, byddai £754k yn cael ei ddefnyddio i greu cronfeydd wrth gefn ychwanegol wedi'u clustnodi, fyddai felly yn codi £42k i £4644k ar ddiwedd 2021/22. Roedd y Gronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf wedi cychwyn y flwyddyn ar £370k ac roedd disgwyl i'r gronfa barhau ar y lefel hon ar ddiwedd 2021/22.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch yr oedi cyn derbyn y cerbydau trydan, ac a oedd hyn yn dderbyniol. Eglurodd y swyddog mai Grant Llywodraeth Cymru oedd yn ariannu'r cerbydau hyn a bod y swyddogion yn deall y rhesymau dros yr oedi, fodd bynnag roedd yr Awdurdod wedi ymrwymo'n gytundebol i'r archebion.

Mynegodd rhai Aelodau eu pryder ynghylch lefel y cronfeydd wrth gefn ac yn meddwl tybed a ellid eu gwario ar brosiectau a amlygwyd yn yr Adroddiad Perfformiad fel rhai sydd angen cyllid, megis Pwyth mewn Pryd a'r Cynllun Gwarchod y Parc. Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod yr Awdurdod yn ceisio rheoli ei gronfeydd wrth gefn yn rhagweithiol, ac ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai rhai prosiectau yn cael eu symud i waith prif ffrwd yr Awdurdod fel rhan o'r broses ailstrwythuro. Fodd bynnag, nododd bod yr Awdurdod mewn sefyllfa ariannol iach oedd yn beth da o ystyried y cynnydd a ddisgwylir mewn chwyddiant a chostau cyflogau yn y blynyddoedd sydd i ddod.

**NODWYD.**

**8. Cofrestr Risg**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf, oedd wedi'i hadolygu gan y Tîm Arweinyddiaeth. Amlygwyd y prif newidiadau o'r adroddiad blaenorol mewn tabl cryno ac roedd y newidiadau hyn yn ymwneud â risgiau ariannu, yn y tymor byr a'r tymor canolig i'r hirdymor; cyflawni targedau'r Llywodraeth; effaith Brexit; y posibilrwydd o fethu â symud systemau TG i Microsoft 365; a'r clefyd Coed Ynn. Dim ond yr olaf o'r risgiau hyn oedd wedi cynyddu yn y Gofrestr, gyda'r duedd ar i lawr yn yr achosion eraill.

Gan ddiolch i'r swyddog am yr adroddiad, mynegodd yr Aelodau eu barn bod y tabl oedd yn amlygu'r risgiau allweddol i'r Awdurdod yn arbennig o ddefnyddiol. Roeddent wedi awgrymu diwygiadau i'r Gofrestr o ran cynnwys risgiau newydd sy'n ymwneud ag anallu i sicrhau contractau ac felly yn methu â chyflawni prosiectau, a'r cynnydd mewn prisiau petrol/disel; ac ailystyried y sgoriau risg ar gyfer effaith newid yn yr hinsawdd (9), ymosodiad firws mawr (18), clefyd coed ynn (37) ac effaith Covid-19 (38). Sicrhaodd y Rheolwr Cyllid yr Aelodau bod prisiau ynni yr Awdurdod wedi'u capio tan ganol 2023.

**NODWYD.**

**9. Adroddiad ar y Perfformiad yn y Cyfnod yn diweddu 31 Rhagfyr 2021**

Roedd yr adroddiad perfformiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2021/22. Roedd y Cynllun hwn yn dilyn dulliau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sydd â saith o amcanion llesiant, ac adran ychwanegol sy'n cyflwyno gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu. Roedd y gweithgareddau oedd yn ymateb i'r adferiad ar ôl Covid 19 wedi'u prif-ffrydio yn y ffrydiau gwaith o dan pob un o'r Amcanion Llesiant.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Rhagfyr 2021 o ran data misol ac ystadegau chwarter 1 i chwarter 3 (Ebrill – Rhagfyr) ar gyfer ystadegau chwarterol, ac yn amlygu'r meysydd hynny lle'r oedd y targedau mewn lliw coch neu oren neu lle'r oedd cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud ers yr adroddiad blaenorol.

Mynegwyd pryder gan yr Aelodau ynghylch yr ystadegau gorfodi, ac atebodd y Prif Weithredwr bod camau ar y gweill i recriwtio Uwch Swyddog Gorfodi mewn ymateb i bryderon yr Aelodau, a bod y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc yn monitro'r sefyllfa. Cwestiynwyd a fyddai hynny'n ddigon i fynd i'r afael â'r ôl-groniad, ac awgrymwyd y gellid defnyddio contractwyr neu staff dros dro yn y tymor byr. Dywedodd y swyddogion bod ymgynghorwyr wedi'u defnyddio ers nifer o flynyddoedd i fynd i'r afael â'r adegau prysuraf o benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Roedd pryder arall yn ymwneud ag ymadawiad y Rheolwr Gweithrediadau a'r gweithgareddau oedd wedi'u gohirio o ganlyniad. Sicrhaodd y Prif Weithredwr yr Aelodau bod aelodau eraill o'r staff wedi ymgymryd â nifer o'r tasgau, fodd bynnag byddai ymgynghoriad ar ailstrwythuro'r Awdurdod yn digwydd yn yr wythnosau nesaf fyddai'n caniatáu i'r sgiliau a'r capasiti gofynnol gael eu clustnodi ac i fynd i'r afael ag unrhyw brinder. Hefyd rhoddwyd sicrwydd y byddai prosiectau fel yr un oedd yn ymwneud â rhywogaethau ymledol yn parhau yn y tymor byr, a'r gobaith oedd y byddai'r cyfryw waith yn cael ei integreiddio i waith cadwraeth yr Awdurdod yn y tymor hwy.

O ran y ffrwd waith Datblygu Aelodau a Llywodraethu, roedd yr Aelodau'n siomedig bod presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi wedi gostwng, a gofynnwyd cwestiwn hefyd ynghylch beth oedd 'gwylio' cyfarfodydd Ffrwd Byw yr Awdurdod yn ei olygu. Atebodd swyddogion nad oedd yn bosibl pennu meini prawf ynghylch faint o amser a dreuliwyd yn gwylio'r cyfarfodydd, fodd bynnag roedd y niferoedd isel yn dal yn uwch yn y rhan

fwyaf o achosion na'r niferoedd oedd yn arfer mynychu cyfarfodydd yr Awdurdod yn bersonol pan oedd hynny'n bosibl.

**NODWYD.**

**10. Adroddiad Cynnydd o ran Iechyd, Diogelwch a Lles – Hydref i Rhagfyr 2021**

Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddamweiniau a digwyddiadau am y cyfnod a'r flwyddyn hyd yn hyn, yn ogystal ag am y cynnydd o ran gweithredu'r system adrodd am ddigwyddiadau ar-lein. Hefyd rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ar iechyd a diogelwch ym mhob un o safleoedd yr Awdurdod; monitro diogelwch rheolaidd a statudol; a salwch staff. Amlygwyd bod achosion o straen yn ymwneud â 'gwaith' yn isel, ond serch hynny roedd yr achosion yn derbyn sylw drwy hyfforddiant cydnerthedd a chwnsela i staff.

Roedd copïau o Syndrom Dirgryndod Llaw-Braich (HAVS) a Pholisïau Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod wedi'u hatodi er gwybodaeth i'r Aelodau, yn ogystal â dangosfwrdd o fetrigau cyffredinol Adnoddau Dynol (AD). Roedd y Rheolwr AD wedi rhoi nifer o ddiweddariadau llafar yn y cyfarfod lle nad oedd y wybodaeth ar gael adeg ysgrifennu'r adroddiad. Mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd bod yr Awdurdod yn cydymffurfio 100% o ran gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Gan ddiolch i'r swyddog am adroddiad cynhwysfawr a defnyddiol, gofynnodd yr Aelodau am i ddata ar fonitro diogelwch rheolaidd yn y dyfodol ddangos a oedd eitemau wedi'u rhoi ar waith neu a oeddent yn dal heb eu gweithredu.  Roeddent hefyd yn edrych ymlaen at weld Cylch Gorchwyl diwygiedig y Grŵp Iechyd a Diogelwch mewn cyfarfod yn y dyfodol. Yn olaf, holodd yr Archwilydd Mewnol am y sefyllfa o ran diffibrilwyr, a chadarnhaodd y swyddog bod y rhain wedi eu lleoli ar draws y canolfannau ac yn Llanion a'u bod yn cael eu hadolygu a'u cynnal yn rheolaidd.

**NODWYD.**

**11. Y Strategaeth Archwilio 2022/24 a'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol 2022/23**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Jonathan Maddock o TIAA, Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod. Eglurodd bod y ddogfen ddrafft hon yn seiliedig ar asesiadau risg a wnaed ar draws y cleientiaid llywodraeth leol ac ar asesiad risg archwilio a ddiweddarwyd oedd yn cydweddu â gwaith yr Awdurdod, i sicrhau bod y sylw a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn yn canolbwyntio ar y risgiau archwilio allweddol.

Y meysydd i'w hadolygu ym mloc 1 (i'w cynnal yn ystod chwarter 2) oedd Adfer ar ôl Trychineb TGCh, Diogelu a Chanolfannau Ymwelwyr a Chaffis (gan ganolbwyntio ar Gastell Henllys). Byddai Bloc 2, i'w wneud yn ystod chwarter 4, yn cynnwys Rheoli Perfformiad, y Gyflogres a Threuliau, a'r Cynlluniau Rheoli Cadwraeth. Hefyd byddai gwaith dilynol ar weithredu'r camau blaenoriaeth 1 a 2 y cytunwyd arnynt o adroddiadau archwilio blaenorol.

Nodwyd y dylid ystyried bod y Cynllun yn eiddo i'r Awdurdod ac y gellid gwneud newidiadau yn awr a hefyd yn ystod y flwyddyn mewn ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg neu ar gais y Pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelod, cytunodd Mr Maddock i ddiweddaru'r paragraff ynghylch Brexit yn y trosolwg o'r ddogfen cyn ei chwblhau, ond dywedodd y byddai cwmpas yr adolygiadau ar reoli fflyd ac effaith economaidd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn cael eu trafod y flwyddyn nesaf gan nad oedd disgwyl iddynt ddigwydd tan 2023/24.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Strategaeth Archwilio 2022/24 a'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol 2022/23.

**12. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion oedd yn peri pryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Mai 2022 2022 heb eu diwygio.